Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwrando, Dysgu a Newid Gyda'n Gilydd: Ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2020-2023

Diweddarwyd
Ebrill 2022

## Taflen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am ragor o gyngor, cysylltwch ag: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

Dyddiad adolygu arfaethedig: Hydref 2023

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a wnaed** |
|---|---|---|---|
| 3.0 | Gweithgor Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid | Mai 2020 | Adolygwyd i adlewyrchu'r sefyllfa ynghylch y pandemig |
| 3.2 | Gweithgor Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid | Ebrill 2022 | Diweddarwyd i adlewyrchu'r newidiadau cyflym dros y flwyddyn ddiwethaf |

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

- Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.
- Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a chredir nad yw'r polisi hwn yn effeithio'n niweidiol ar unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Ein trosolwg strategol** | **2** |
| **Ein cynllun gweithredu** | **6** |
| **Ein sianelau** | **7** |
| **Monitro a gwerthuso** | **8** |
| **Atodiad 1: Dadansoddiad o randdeiliaid allanol** | |
| **Atodiad 2: Grwpiau rhanddeiliaid** | |
| **Atodiad 3: Lleoliad, amlder ac aelodaeth fforwm** | |

## Rhagair

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld cyfraniadau rhyfeddol a dewr gan y rhai sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Gwnaed ymdrech enfawr i leihau effaith y pandemig ar blant, pobl ifanc a dysgwyr o bob oedran.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, rydym yn ymwybodol iawn o'i effaith barhaus ar deuluoedd, gweithwyr proffesiynol a phawb sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant. Wrth i ni ddychwelyd i arolygu, dysgwyr fydd ein blaenoriaeth, fel maent wedi bod erioed. Byddwn yn gwneud yr hyn sydd orau iddyn nhw - gan wneud yn siŵr eu bod yn cael yr addysg y maent yn ei haeddu.

Rydym wedi ymrwymo i wneud ein gwaith yn brofiad cadarnhaol. Cafodd ein gweithgarwch ymgysylltu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ei groesawu'n helaeth gan arweinwyr ar draws bob sector. Roeddent yn gwerthfawrogi sgyrsiau proffesiynol â'n harolygwyr, a bu modd inni rannu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws pob sector trwy ein cyhoeddiadau tymhorol.

Nawr, wrth barhau â'r gwaith ymgysylltu hwn, rydym yn edrych at y dyfodol gydag ysgolion a darparwyr eraill at flaenoriaethau newydd, gan adeiladu ar ein mewnwelediadau o'r llynedd.

Eleni, rydym yn cyflwyno ein trefniadau arolygu diwygiedig hefyd, gan eu peilota ag ysgolion ac UCDau.

Mae camau eraill rydym wedi eu cymryd i feithrin ein hymgysylltu â rhanddeiliaid ers dechrau'r pandemig yn cynnwys cyflwyno ein Grŵp Cyfeirio Rhieni a Gofalwyr, sefydlu Fforwm Athrawon ac edrych ar ffyrdd i gynnwys dysgwyr a staff cymorth ymhellach.

Mae'r strategaeth ddiweddaredig hon yn adlewyrchu'r modd rydym wedi addasu ac yn parhau i dyfu, gan ein helpu i wrando ar ein holl randdeiliaid, eu hysbysu a'u cynnwys.

Rwy'n dymuno'r gorau, ac yn diolch yn fawr i bob un ohonoch chi, y staff sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant, rhieni a gofalwyr, a dysgwyr a phawb sy'n ymwneud â Dal ati i Ddysgu.

**Owen Evans, PAEM, Ebrill 2022**

## Cyflwyniad

Buom yn gweithio'n agos gyda dysgwyr, rhieni, gweithwyr addysg proffesiynol ac arolygwyr i gefnogi parhau â dysgu yn ystod y pandemig. Helpodd y trafodaethau gwerthfawr a gonest a gawsom gyda chi i ni addasu'r ffordd rydym yn gweithio gyda darparwyr addysg.

Yn awr, rydym eisiau adeiladu ar y perthnasoedd agosach hyn i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn cefnogi gwelliant. Bydd y pandemig yn debygol o barhau i gael effaith barhaol a dwys ar addysg. Mae angen i ni gael strategaeth hyblyg i ymgysylltu â chi, ein rhanddeiliaid, a gwneud yn siŵr fod ein gwaith yn gweddu i'ch anghenion ym maes addysg a hyfforddiant.

Wrth i'n gwaith newid dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio gyda chi i ffurfio ein cynlluniau. Byddwn yn ymgynghori'n eang, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu i ymestyn i grwpiau newydd a grwpiau gwahanol o randdeiliaid, ac yn defnyddio eich safbwyntiau i helpu cynllunio ein gweithgareddau a gwella ein gwaith.

Trwy gydol y cyfan, byddwn yn parhau i sicrhau mai dysgwyr sydd wraidd ein harolygu, a bod ein gwaith yn adlewyrchu eich disgwyliadau. Rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i'ch hyder a'ch ymddiriedaeth yn ein gwaith. Mae meithrin hyder ac ymddiriedaeth yn dibynnu ar ein gweledigaeth strategol glir am y modd y mae ein gwaith yn helpu gwella addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Er y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, byddwn bob amser yn llais annibynnol. Mae'r strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid hon yn ein helpu i feithrin ein perthynas â chi'n rhanddeiliaid a gwrando ar eich syniadau. Rydym yn defnyddio eich adborth a'ch gwybodaeth i wella'r ffordd rydym yn cyfleu a chyflawni ein hamcanion strategol. Darllenwch ymlaen i weld sut rydym yn **gwrando** arnoch, yn eich **cynnwys** ac yn eich **hysbysu** yn ein gwaith.

## Ein trosolwg strategol

Rydym wedi alinio ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu â'n hamcanion strategol a'n hegwyddorion cyflawni.

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru.

### Gwneud i hyn ddigwydd

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.

Ein hamcanion strategol yw:

- Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant

Ein hegwyddor gyflawni yw:

- Cyflwyno ein gwaith: Adeiladu sefydliad gwell – byw yn unol â'n gwerthoedd

Ein **gwerthoedd** yw:

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a gweithio gyda phobl eraill
- Gweithredu'n agored, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hyrwyddo iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith
- Annog cyfrifoldeb, blaengaredd ac arloesedd

Trwy wrando ar ein rhanddeiliaid, a dysgu oddi wrthynt, rydym yn ffurfio sut a beth rydym yn ei wneud i gyflawni pob un o'n hamcanion strategol.

Byddwn:

- **Yn gwrando arnoch:** gwneud y defnydd gorau o'ch amser trwy geisio eich barn, eich cynnwys mewn gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth, annog adborth trwy ganmol a chodi pryderon i helpu llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n helpu i feithrin perthnasoedd gwell
- **Yn eich cynnwys:** cynnwys darparwyr mewn cynllunio eu harolygiad, cynnwys rhanddeiliaid yn uniongyrchol yn ein harolygiadau; gweithio gyda'n gilydd ar brosiectau ar y cyd ac annog sgwrsio trwy wahanol sianelau cyfathrebu
- **Yn eich hysbysu:** rhoi negeseuon clir, cydlynus a chyson i chi; rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau mewn arolygu, yr arfer effeithiol ddiweddaraf, ac argymhellion o'n gwaith thematig ac arolygu

## Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus

Mae'n bwysig eich bod yn ymddiried yn ein gwaith, ac yn ystyried ei fod yn dryloyw. Dyna pam rydym yn defnyddio ystod eang o sianelau cyfathrebu i'ch cynnwys. Rydym yn darparu atebolrwydd cyhoeddus trwy'r meysydd allweddol hyn:

### Gwrando

- **Sianelau adborth** – holiaduron arolygu, arolygon cyn-arolygiad gwasanaethau addysg llywodraeth leol, cyfarfodydd â rhieni, llywodraethwyr a staff.

### Cynnwys

- **Ymgynghori** – rhannu cynigion a gwahodd rhanddeiliaid i ffurfio dyfodol ein gwaith.

- **Fforymau a grwpiau cyfeirio** – grwpiau sy’n benodol i sector a grwpiau yn seiliedig ar brosiect i gynnwys proffesiynau addysg a llywio’r hyn rydym yn ei wneud

**Hysbysu**

- **Canfyddiadau arolygu** – adroddiadau unigol ar ein gwefan; ein cronfa ddata deilliannau chwiliadwy; cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau arolygu ar ffurf negeseuon e-bost at wleidyddion lleol a Llywodraeth Cymru.
- **Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar addysg a hyfforddiant** – lledaenu’n eang ymhlith yr holl randdeiliaid allweddol, ar-lein ac oddi ar-lein, trwy’r cyfryngau a thrwy gyflwyniadau rhanddeiliaid.
- **Adolygiadau thematig cenedlaethol** – adroddiadau ar ein gwefan; adnoddau (ffilm a chyflwyniadau); y cyfryngau; blogiau.
- **Arfer effeithiol** – astudiaethau achos ar-lein a ffilm; cyngor ac arweiniad i ddarparwyr yn ystod arolygiad.
- **Cyhoeddiadau corfforaethol** – mae ein Cynllun Blynyddol a’n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn amlinellu ein cyfeiriad, ac yn amlygu ein perfformiad.

**Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol**

Mae’r Gweinidog Addysg yn gofyn i ni am gyngor ac arweiniad am feysydd addysg a hyfforddiant penodol, trwy lythyr cylch gwaith blynyddol. Mae’r gwaith hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac adolygu polisi addysg cenedlaethol.

**Gwrando**

- Mae barn rhieni a gofalwyr am brofiadau plant o addysg yn bwysig iawn i ni. Bydd gwrando ar eu safbwynt nhw, i ffwrdd o’r broses arolygu, yn rhoi darlun cliriach i ni. Bydd ein Grŵp Cyfeirio Rhieni a Gofalwyr newydd yn cynnig safbwyntiau a syniadau a fydd yn dylanwadu ar ein penderfyniadau ac yn ein helpu i ffurfio’r ffordd ymlaen.

**Cynnwys**

Mae ein cymorth i ddatblygu a gwreiddio’r Cwricwlwm i Gymru yn parhau trwy:

- Sgyrsiau ag ysgolion ac UCDau. Mae bod yn hyblyg ac yn sensitif i amgylchiadau unigol darparwyr yn bwysig i ni. Bydd ein trafodaethau ag ysgolion ac UCDau yn ein galluogi i ddeall y modd y maent wedi ymateb i’r heriau yn sgil Covid-19. Bydd hyn yn ein helpu i weld y cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys prosesau gwerthuso a gwella a datblygu’r cwricwlwm. Bydd y gwaith hwn yn creu darlun cenedlaethol o’r hyn sy’n gweithio’n dda, ac yn nodi’r heriau.
- Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol: rhannu’r prif negeseuon o’n gwaith am ddatblygiadau cynnar mewn ysgolion.
- Cynrychiolaeth mewn grwpiau llywio a phwyllgorau
- Rhannu arfer effeithiol a dulliau diddorol wrth iddynt ddod i’r amlwg mewn ysgolion.

**Hysbysu**

- Cyhoeddi a hyrwyddo adroddiadau thematig sy’n cynnwys argymhellion eang ar gyfer darparwyr, swyddogion polisi a’r llywodraeth.

**Amcan strategol 3: Meithrin gallu**

Mae ein harfer o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cefnogi ein hamcan strategol i feithrin gallu mewn addysg a hyfforddiant.

**Gwrando**

- Cefnogi darparwyr addysg a hyfforddiant yn y broses wella. Yn ystod arolygiad, mae ein sgyrsiau proffesiynol a’n hargymhellion yn helpu ysbrydoli a chefnogi gwelliant.
- Arolygwyr Cyswllt dynodedig yn ymweld yn anffurfiol â phob darparwr addysg bellach a dysgu yn y gwaith bob blwyddyn. Mae Arolygwyr Cyswllt yn datblygu ein perthynas â’r sectorau hyn, yn monitro perfformiad a chynnydd, yn gwerthuso yn unol â themâu cyffredin cytûn, ac yn nodi a rhannu arfer effeithiol.
- Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol (ACALl) sy’n monitro a herio awdurdodau lleol am berfformiad a chynnydd eu hysgolion a’u gwasanaethau addysg. Bydd Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol yn gweithio’n adeiladol â’r awdurdod ac yn rhannu arfer effeithiol, lle bo’n berthnasol. Mae gennym arolygwyr cyswllt hefyd i oruchwylio gwaith y pedwar consortiwm addysgol rhanbarthol wrth herio a chynorthwyo ysgolion i wella. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru eu cynnwys yn ein holl arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.

**Cynnwys**

- Defnyddio Arolygwyr Cymheiriaid, gan alluogi uwch arweinwyr i gael profiad o ddarparwyr eraill, a hyfforddi gyda ni bob blwyddyn. Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn amhrisiadwy i ni - maent yn helpu creu dealltwriaeth a disgwyliadau ar y cyd ar draws addysg. Gan fod tua 1,000 o Arolygwyr Cymheiriaid ar draws yr holl ddarparwyr, cânt gyfle i weld arfer sy’n wahanol i’w harfer nhw eu hunain – gan fireinio eu dealltwriaeth a’u medrau dadansoddol i’w helpu i feithrin gallu ar draws eu sector. Rydym hefyd yn eu hyfforddi i gymryd rhan yn ein hadolygiadau arolygu thematig. Fel rhan o ddatblygu ein fframwaith arolygu, byddwn hefyd yn gwerthuso ac yn adolygu’r cyfraniad a wna Arolygydd Cymheiriaid at ddysgu personol a phroffesiynol, a’i rôl mewn cefnogi system hunanwella.
- Cyflwynwyd Ymgynghorwyr Her yn 2014, a byddwn yn parhau i’w defnyddio yn ystod rhai arolygiadau cynradd ac uwchradd.
- Cynnwys ymarferwyr cyfredol (uwch arweinwyr) fel enwebeion yn ystod arolygiadau. Nhw yw’r ddolen gyswllt rhwng y darparwr a’r tîm arolygu. Mae gan ein grwpiau cyfeirio penaethiaid ar draws pob sector rôl bwysig mewn llywio a dylanwadu ar ein trefniadau arolygu, ac maent yn ein helpu i ymgysylltu ag uwch arweinwyr yn rheolaidd.

**Hysbysu**

- Nodi arfer effeithiol o'n gwaith arolygu a'n gwaith thematig a rhannu hyn ar-lein ac mewn cynadleddau.
- Cyhoeddi data ar ddeilliannau arolygu y gall darparwyr ei ddefnyddio i chwilio, allforio, dadansoddi a meincnodi eu perfformiad eu hunain.
- Arolygu Cymru – ymrwymiad i gydweithio rhyngom ni a'r tri phrif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru. Ein nod ar y cyd yw cefnogi deilliannau gwell ar gyfer pobl, gan amddiffyn eu lles trwy adrodd yn ddiduedd ar wasanaethau cyhoeddus.

## Ein cynllun gweithredu

Mae cyfathrebu clir yn ganolog i'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Ein nod yw rhannu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol a hygyrch i bawb, o ddysgwyr a rhieni / gofalwyr, i weithwyr addysg proffesiynol a swyddogion y llywodraeth. Mae ein polisi iaith Gymraeg yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ymdrin â phopeth yn ddwyieithog a bod ein gohebiaeth yn bodloni dewisiadau iaith rhanddeiliaid.

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi blaenoriaethu ein gweithgareddau. Mae'r cynllun gweithredu isod yn cael ei ailffurfio'n barhaus wrth i ni barhau i ystyried effaith uniongyrchol y pandemig a'i effaith hirdymor ar gyflawni ein hamcanion.

- Yn ystod 2020-21, wrth i ysgolion ac UCDau ddechrau ailagor, fe wnaethom ymweld â nhw i:
  - ddeall a dysgu o'r modd y maent wedi ymateb i'r heriau yn sgil Covid-9
  - ddarparu mwy o adborth ar gynnydd â diwygio ledled Cymru, a rhannu arfer effeithiol sy'n dod i'r amlwg i gefnogi gwelliant
- Gweithredu ein trefniadau arolygu diwygiedig.
- Adeiladu ar y dulliau cyfathrebu rydym wedi eu defnyddio yn ystod y pandemig i gyrraedd grwpiau newydd a gwahanol o randdeiliaid, a defnyddio eu safbwyntiau i helpu cynllunio ein gweithgareddau a gwella ein gwaith.
- Ymgynghori â sectorau ôl-16 am newidiadau i'n trefniadau arolygu.
- Parhau i gryfhau'r modd rydym yn arolygu addysg a hyfforddiant ôl-16 ar sail adborth gan ein rhanddeiliaid.
- Cyn arolygiad, parhau i gynnal arolwg o rieni, disgyblion, llywodraethwyr, athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill, yn ogystal â'r gymuned ehangach ar gyfer arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.
- Ymgysylltu'n flynyddol â phob sector trwy ein fforymau rhanddeiliaid a chyfarfodydd rheolaidd, grwpiau llywio a phwyllgorau.
- Parhau i hysbysu rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol am gyhoeddi ein hadroddiadau arolygu.
- Adolygu a gwella ein gwefan i'w gwneud yn gwbl hygyrch, a darparu profiad gwell i ddefnyddwyr.
- Datblygu ein blog ymhellach, gan rannu mewnwelediad newydd am ein gwaith i gefnogi gwelliant mewn dysgu.

- Parhau i rannu adroddiadau thematig ac arfer effeithiol, yn enwedig o ran y cwricwlwm newydd sy'n dod i'r amlwg.
- Rhannu cameos arfer ddiddorol o'n gwaith ymgysylltu.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn amlinellu barn cyflwr y genedl ar berfformiad mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- Defnyddio ein Grŵp Cyfeirio Rhieni a Gofalwyr newydd i ymgysylltu'n fanylach â rhieni ar faterion penodol.
- Parhau i gryfhau ein perthnasoedd yn y sectorau ôl-16 trwy waith ein harolygwyr cyswllt.
- Elwa ar gyfleoedd i gydweithio ag arolygiaethau eraill o dan 'Arolygu Cymru'.

- Adeiladu ar lwyddiant ein Fforwm Athrawon peilot trwy barhau i ofyn iddynt am eu barn, a gwrando ar eu profiadau, a'u deall.

- Archwilio opsiynau i gryfhau ein cysylltiadau â dysgwyr – i glywed eu llais yn fwy rheolaidd ac i ffwrdd o'r broses arolygu.

## Ein sianelau

### Gwrando

- Fforymau Rhanddeiliaid rheolaidd sy'n benodol i sector, a gynhelir o leiaf unwaith y flwyddyn. Ers dechrau'r pandemig, mae'r rhain wedi cael eu cynnal ar-lein. Cânt eu cynnal gan Arolygydd Arweiniol Sector, gydag aelodau o blith uwch arweinwyr, penaethiaid, ymarferwyr, prifathrawon, athrawon ymgynghorol a chyrff cenedlaethol perthnasol. Mae pob sector yn ymdrin ag aelodaeth yn wahanol, ond y nod fydd cyflanwi'r ymgysylltu gorau posibl. Rôl cynrychiolwyr fforwm yw:

  - rhannu adborth gyda ni am faterion arolygu o'u sector neu'u sefydliad
  - rhannu ac eirioli gwybodaeth gyda'u rhwydweithiau eu hunain am ein dull diwygiedig a materion allweddol mewn arolygu

  Gweler Atodiad 3 ar gyfer trefniadau pob sector.

### Cynnwys

- Fforwm Cenedlaethol blynyddol Rhanddeiliaid, ble byddwn yn rhannu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau am wella addysg a hyfforddiant. Rydym yn gwahodd un cynrychiolydd o bob sefydliad ar ein rhestr rhanddeiliaid yr ydym yn ei hadolygu'n rheolaidd.

### Hysbysu

- Mae arolygwyr, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a Chyfarwyddwyr Strategol yn mynychu ac yn siarad mewn amrywiaeth o gynadleddau, gweithdai a digwyddiadau eraill a gynhelir gan y sectorau.

- Rhaglen flynyddol o recriwtio, hyfforddiant a diweddariadau ar gyfer arolygwyr allanol, fel Arolygwyr Cymheiriaid, Arolygwyr Ychwanegol ac Ymgynghorwyr Her.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor, fel yr amlinellir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog Addysg at y Prif Arolygydd.
- Ein gwefan yw ein prif cyfrwng cyfathrebu ar-lein, sy'n cynnig gwasanaethau cofrestru ar gyfer ffrydiau RSS a newyddion trwy'r e-bost. Rydym yn gwerthuso perfformiad y wefan i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt, a bod ein hadroddiadau arolygu, arfer effeithiol, adroddiadau thematig a chyhoeddiadau corfforaethol yn hygyrch.
- Mae ein blogiau yn cynnig mewnwelediad ar faterion amserol am addysg a hyfforddiant. Caiff pob neges ei hysgrifennu gan un o'n harolygwyr.
- Mae ein e-saethiad misol i randdeiliaid ('*Diweddariad Estyn*') yn crynhoi adroddiadau ar arfer effeithiol ac adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau newydd hefyd. Rydym yn ei anfon at:

    - Arolygwyr Ychwanegol
    - Arolygwyr Cymheiriaid
    - Arolygwyr Lleyg
    - Pob darparwr addysg a hyfforddiant
    - Rhanddeiliaid sydd wedi cofrestru trwy ein gwefan

- Mae ein sianelau cyfryngau cymdeithasol, Facebook, Twitter a LinkedIn yn helpu ymhelaethu ar ein negeseuon ac yn hwyluso adborth anffurfiol.

## Monitro a gwerthuso

Byddwn yn gwerthuso'n rheolaidd pa mor dda rydym yn ymgysylltu â chi trwy:

- Geisio eich adborth yn rhagweithiol o'n digwyddiadau a'n hyfforddiant
- Adolygu cyfraddau ymateb i'n hymgynghoriadau
- Dadansoddi ymddygiad a ffafriaethau defnyddwyr trwy ein sianelau digidol
- Ein proses ffurfiol ar gyfer adborth a chwynion
- Arolygon defnyddwyr

Yn fwy cyffredinol, rydym yn gwerthuso ac yn cyflwyno adborth ar arolygiadau:

- Bydd Arolygwyr Cofnodol yn monitro a gwerthuso gwaith pob arolygydd (Arolygydd Ychwanegol, Arolygydd Cymheiriaid, Arolygydd Lleyg), yn rhoi adborth iddynt, ac yn cofnodi hyn yn ein cronfa ddata sicrhau ansawdd.
- Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig cyfle i bennaeth y ddarpariaeth rannu ei safbwyntiau mewn holiadur. Rydym yn gofyn iddo werthuso a rhoi sylwadau ar ansawdd ein harolygiad a'r adroddiad, ac rydym yn cofnodi hyn yn ein cronfa ddata sicrhau ansawdd. Mae'r adborth hwn yn ein helpu i nodi pryderon, a llywio ein cynllun hyfforddi a datblygu.

## Atodiad 1: Dadansoddiad o randdeiliaid allanol

Mae'r dadansoddiad hwn yn trefnu rhanddeiliaid sy'n rhannu diddordeb tebyg mewn addysg a/neu hyfforddiant yn ôl grwpiau, yn fras. Mae hyn yn helpu i ni dargedu a blaenoriaethu ein negeseuon.

| Diddordeb | Math o randdeiliaid (ychydig o enghreifftiau) |
|---|---|
| Cânt eu dylanwadu'n uniongyrchol gan ein gwaith | Penaethiaid, prifathrawon, cyfarwyddwyr addysg, athrawon, darlithwyr, staff cymorth |
| Maent yn elwa'n uniongyrchol ar ein gwaith | Ysgolion, darparwyr ôl-16, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, gwasanaethau addysg mewn carchardai, dysgu oedolion, Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) |
| Maent yn elwa'n anuniongyrchol ar ein gwaith | Dysgwyr, rhieni / gofalwyr, y cyhoedd<br>Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Cymwysterau Cymru |
| Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein gwaith | Arolygwyr, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Prawf EM, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Carchardai EM, Llywodraeth Cymru |
| Maent yn cyfrannu'n anuniongyrchol at ein gwaith | Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI), Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Education Scotland, The Education and Training Inspectorate (Gogledd Iwerddon) ac Ofsted |
| Maent yn dangos diddordeb yn ein gwaith, ond ni chânt eu heffeithio ganddo yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol | Y cyfryngau, sylwebwyr addysg, cwmnïau ymchwil, ymgynghorwyr addysg a chyrff academaidd |

## Atodiad 2: Grwpiau rhanddeiliaid

Rydym yn adolygu'r sefydliadau a phobl yr ydym yn ymgysylltu â nhw yn rheolaidd.

### Unigolion

- Penaethiaid ysgolion
- Penaethiaid colegau a phrifysgolion
- Uwch arweinwyr
- Athrawon newydd gymhwyso
- Dysgwyr (pob oedran)
- Darlithwyr
- Athrawon
- Cynorthwywyr ystafell ddosbarth
- Arolygwyr – cymheiriaid, ychwanegol, ymgynghorwyr her
- Rhieni a gofalwyr
- Llywodraethwyr

### Darparwyr

- Ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n derbyn cyllid, gan awdurdodau lleol
- Ysgolion cynradd
- Ysgolion uwchradd
- Ysgolion arbennig
- Unedau cyfeirio disgyblion
- Ysgolion annibynnol
- Addysg bellach
- Colegau arbenigol annibynnol
- Dysgu oedolion
- Gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- Addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- Dysgu yn y gwaith
- Dysgu yn y sector cyfiawnder

### Sefydliadau

- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Archwilio Cymru
- AEM Carchardai
- AEM Prawf
- Agored Cymru
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Arolygiaethau Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Colegau Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Consortiwm Canolbarth y De
- CYDAG
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
- Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (UCET)
- Cyngor Ymgynghorol ar Addysg yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC)
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru
- Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig Gogledd Cymru
- Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE Cymru)
- Cymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru (EALAW)
- Cymdeithas Ysgolion Cynradd Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Chwarae Teg
- Dysgu oedolion yn y rhwydwaith partneriaethau cymunedol
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
- Girlguiding Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

- GwE
- Gweinidog Addysg yr Wrthblaid
- Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
- Gweithredu dros Blant
- Gyrfa Cymru
- Llywodraeth Cymru – Grŵp Iechyd a Gwansanaethau Cymdeithasol
- Llywodraeth Cymru – Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Mudiad Meithrin
- Ofsted
- Parentkind Cymru
- Partneriaeth Addysg De Orllewin Cymru
- Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru
- Plant yng Nghymru
- Prif Swyddogion Ieuenctid (PYO)
- Prospect
- Pwyllgor plant, pobl ifanc ac addysg
- Scouts Cymru
- SNAP Cymru
- Stonewall Cymru
- UCM Cymru
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Voice Cymru
- Wiserd
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)
- Y Cyngor Astudiaethau Maes
- Y Cyngor Sgiliau Sector
- Y Gwasanaeth Addysg Catholig
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)
- Y Gweinidog Addysg
- Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg
- Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Ymchwil y Senedd
- Young Women's Trust
- Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol

## Atodiad 3: Amlder ac aelodaeth fforwm

Rydym yn cynnal digwyddiadau rhwydwaith sector unigol yn flynyddol i sicrhau bod uwch arweinwyr yn y proffesiwn addysgu ledled Cymru yn gallu rhannu arfer gorau a thrafod unrhyw faterion a datblygiadau sy'n berthnasol i bob sector.

Mae'r holl ddigwyddiadau bellach yn cael eu cynnal ar-lein a gwahoddir Prifathrawon ac uwch arweinwyr ar draws pob un o'r sectorau a restrir isod i fod yn bresennol:

- Cynradd
- Uwchradd
- Lleoliadau nas cynhelir
- Annibynnol – yn cynnwys ysgolion prif ffrwd annibynnol, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau arbenigol
- annibynnol
- Arbennig ac UCD
- Ysgolion pob oed
- Ysgolion ffederal
- Addysg Bellach
- Dysgu yn y Gwaith
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Cymraeg i Oedolion
- Addysg Gychwynnol i Athrawon
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid